**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 28 Hydref 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A M Day (Arglwydd Faer) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| P M Black | S M Jones | R C Stewart |
| A M Day | E J King | L G Thomas |
| P Downing | E T Kirchner | T M White |
| M Durke | A S Lewis | P N Bentu |
| C R Evans | M B Lewis | H J Gwilliam |
| R Francis-Davies | W G Lewis | D H Jenkins |
| F M Gordon | P Lloyd | M W Locke |
| K M Griffiths | D Phillips | N L Matthews |
| C A Holley | C L Philpott | J D McGettrick |
| P R Hood-Williams | S Pritchard | J E Pritchard |
| B Hopkins | K M Roberts | M S Tribe |
| D H Hopkins | B J Rowlands | A J Jeffery |
| M H Jones | R V Smith | |
| M Jones | A H Stevens | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, C R Doyle, V M Evans, E W Fitzgerald, R Fogarty, N Furlong, L S Gibbard, T J Hennegan, J W Jones, H Lawson, P N May, H M Morris, L V Walton a/ac R A Williams

---

## 68. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a allai fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd taflenni

os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**69. Cyflwyno Teitl yr Henadur Anrhydeddus.**

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod y cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf 2022 wedi penderfynu cyflwyno'r teitl Henadur Anrhydeddus i'r cyn-Gynghorwyr canlynol, June E Burtonshaw, Mark C Child, D Gareth Sullivan a Des W W Thomas, i gydnabod eu gwasanaeth hir a nodedig i Ddinas a Sir Abertawe a'i awdurdodau rhagflaenol. Cyflwynwyd y teitlau hynny mewn Cyfarfod Seremonïol y cyngor.

Daw'r teitl o'r hen deitl Seisnig “Ealdorman”, sy'n golygu "dyn hŷn" yn llythrennol ac felly ‘henadur’, ac fe'i defnyddiwyd gan y Prif Foneddigion a oedd yn llywyddu'r siroedd. Nid yw teitl Henadur Anrhydeddus yn wleidyddol.

Defnyddir y teitl yn Ninas a Sir Abertawe fel gwobr i unigolion er mwyn cydnabod eu gwasanaethau hir ac amlwg i'r cyngor, ar yr amod bod y meini prawf wedi'u cyflawni.

**June E Burtonshaw**

Bu’r cyn-Gynghorydd a'r cyn-Arglwydd Faer, June E Burtonshaw, yn gwasanaethu cymuned Penderi. Roedd yn Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe o 2002 i 2003. Roedd ei chyfnodau o wasanaethu'n cynnwys:

- Cyngor Dinas Abertawe. 5 Mai 1983 i 31 Mawrth 1996.
- Dinas a Sir Abertawe. 4 Mai 1995 i 9 Mai 2022.

**Mark C Child**

Bu’r cyn-Gynghorydd a'r cyn-Arglwydd Faer, Mark C Child, yn gwasanaethu cymuned West Cross. Roedd yn Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe yn 2020/2021. Roedd ei gyfnodau o wasanaeth yn cynnwys:

- Dinas a Sir Abertawe. 6 Mai 1999 i 9 Mai 2022.

**D Gareth Sullivan**

Bu’r cyn-Gynghorydd a'r cyn-Arglwydd Faer, D Gareth Sullivan, yn gwasanaethu cymuned Llangyfelach. Roedd yn Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe o 2008 i 2009. Roedd ei gyfnodau o wasanaethu'n cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw. 7 Mai 1987 i 31 Mawrth 1996.
- Dinas a Sir Abertawe. 4 Mai 1995 i 9 Mai 2022.

**Des W W Thomas**

Bu’r cyn-Gynghorydd a'r cyn-Arglwydd Faer, Des W W Thomas, yn gwasanaethu cymuned West Cross. Roedd yn Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe o 1996 i 1997. Roedd ei gyfnodau o wasanaethu'n cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Abertawe. 4 Mai 1972 i 31 Mawrth 1974.
- Cyngor Dinas Abertawe. 1 Ebrill, 1974 tan 5 Mai 1976.
- Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg. 1 Tachwedd 1979 i 31 Mawrth 1996.
- Dinas a Sir Abertawe. 4 Mai 1995 i 9 Mai 2022.

Talodd Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf deyrnged i wasanaeth hir a nodedig y cyn-Gynghorwyr hyn. Ymatebodd y pedwar Henadur Anrhydeddus.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.25 pm

**Cadeirydd**